
# Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru

Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Rhagfyr 2017



# Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru

**Cynulleidfa**
Awdurdodau lleol, meithrinfeydd, ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru, cyrff llywodraethu ysgolion.

**Trosolwg**
Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu prif ganfyddiadau ac argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Sefydlwyd y panel gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm Rhyw a Pherthnasoedd yn y dyfodol yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd**
Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Llywodraeth Cymru.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:
Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: Personalandsocialeducationenquiries@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn gov.wales/educationandskills

**Dogfennau cysylltiedig**
*Llywio Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru* Renold, E. a McGeeney, E. (Prifysgol Caerdydd, 2017) tt.1–140
http://www.cardiff.ac.uk/research/explore/find-a-project/view/1026193-informing-the-future-of-the-sex-and-relationships-curriculum-in-wales

ISBN digidol 978 1 78903 032 7
© Hawlfraint y Goron 2017
WG32816

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair gan y cadeirydd** | **2** |
| **Cyflwyniad a chyd-destun** | **3** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Meysydd allweddol ac argymhellion gan y panel o arbenigwyr** | **10** |
| **Atodiad 1: Cylch gorchwyl** | **27** |
| **Atodiad 2: Aelodaeth y Panel o Arbenigwyr Addysg a Pherthnasoedd a'r ymgynghoriad allanol** | **28** |
| **Atodiad 3: Agendâu cyfarfodydd a chyflwyniadau gan aelodau nad ydynt ar y panel** | **30** |
| **Atodiad 4: Rhestr termau cysyniadau allweddol – diffiniadau gweithredol a ddefnyddir gan y panel** | **31** |
| **Atodiad 5: Egwyddorion craidd ar gyfer cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd byw** | **37** |
| **Atodiad 6: Meysydd thematig ar gyfer cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd byw** | **42** |
| **Atodiad 7: Parchu eraill ar gyfer perthnasoedd llawn parch – datganiad y panel ar fynd i'r afael â'r diwylliant bwlio mewn ysgolion** | **46** |

# Rhagair gan y cadeirydd

Fel cadeirydd, hoffwn gydnabod a chofnodi fy ngwerthfawrogiad i'r sawl a rannodd eu harfer a'u harbenigedd yn ystod cyfarfodydd panel wyneb yn wyneb ac yn y trafodaethau rhithwir a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Diolch arbennig i Dr. Ester McGeeney, ymarferydd-ysgolhaig arweiniol ym maes addysg rhyw a pherthnasoedd, a gefnogodd adrannau allweddol o'r adroddiad llawn gan weithredu fel awdur ar y cyd ar eu cyfer. Diolch arbennig hefyd i David Sargent (Llywodraeth Cymru) a roddodd gymorth helaeth drwy gydol proses y panel. Diolch hefyd i Steven Price, Kerry Davies ac Abigail Williams (Llywodraeth Cymru) am eu cymorth gweinyddol.

Roedd hon yn broses wirioneddol gydweithredol ac roedd ymrwymiad, brwdfrydedd a cholegoldeb y grŵp yn glodwiw iawn. Yn wir, mae'r modd y cydweithiodd sectorau, grwpiau ac unigolion gwahanol, ar draws meysydd a sectorau amrywiol ond cyd-gysylltiedig er mwyn cyflawni potensial Addysg Rhyw a Pherthnasoedd wrth i'r cwricwlwm newydd siapio, yn awgrymu bod dyfodol addawol iawn i Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru wrth i'r seilwaith ar gyfer dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag Addysg Rhyw a Pherthnasoedd esblygu.

**Yr Athro Emma Renold, Prifysgol Caerdydd**

**Cadeirydd y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**



# Cyflwyniad a chyd-destun

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio statws a datblygiad y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yng Nghymru ac mae'n rhoi cyfres o argymhellion ar:

- Effaith statws cul ac anstatudol y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd presennol ar ddysgu a phrofiad;

- Egwyddorion craidd (gweler atodiad 5) a meysydd thematig y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd newydd;

- Addysgeg ac asesiad effeithiol ar gyfer cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n gynhwysol, yn gyfannol, yn greadigol, yn grymuso ac yn gwarchod, ac sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau;

- Anghenraid hyfforddiant, arweinyddiaeth, adnoddau, cymorth a sylfaen ymchwil cadarn er mwyn sicrhau dysgu a phrofiad o ansawdd wrth ddarparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Os caiff ein hargymhellion eu cymeradwyo a'u gweithredu, rydym yn hyderus, dros amser, y gall Cymru fynd i'r afael ag Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, sy'n faes nas rhoddwyd hanner digon o sylw iddo yn y gorffennol, a dechrau diwallu anghenion dysgu a phrofiad pob plentyn a pherson ifanc, eu hysgolion, a'r gymuned ehangach.

## Cylch gwaith y panel o arbenigwyr

Sefydlwyd y panel o arbenigwyr ym mis Mawrth 2017 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams er mwyn helpu i ddatblygu'r cwricwlwm Rhyw a Pherthnasoedd yn y dyfodol fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant. Gofynnwyd i'r panel nodi materion a chyfleoedd a allai lywio penderfyniadau ynghylch helpu'r proffesiwn addysgu i gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel mewn ysgolion yn fwy effeithiol.

Yn benodol, gofynnwyd i'r grŵp wneud y canlynol:

1) rhoi argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar sut y gellid gwella arfer presennol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd cyn 2022 a chyn i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno.

2) rhoi argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r ysgolion arloesi ar ddyfodol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant.

Roedd y cylchoedd gorchwyl a bennwyd yn uchelgeisiol (gweler Atodiad 1), ond yn angenrheidiol o ystyried y ffaith bod angen taer am waith radical i ddiwygio Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru a ledled y DU. Yn absenoldeb sylfaen ymchwil cadarn ar gyfer mapio'r ffordd orau o wella arfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd cyn

2022, ac o ystyried datblygiad cyflym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant, canolbwyntiodd y grŵp ar roi argymhellion ar ddyfodol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, os ceir cefnogaeth, rhaid i'r argymhellion ar addysgeg, asesu, hyfforddiant, arweinyddiaeth, adnoddau, ymchwil a chymorth gael eu gweithredu ar unwaith wrth i Gymru ddechrau ar y broses raddol o sicrhau darpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel erbyn 2022.

Cynhaliodd y grŵp ei waith mewn cyfres o gyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng mis Mawrth a mis Medi 2017. Ni chafodd y panel ei ariannu i ymgymryd â gwaith ymchwil gwreiddiol, i ymgynghori (e.e. ag ymarferwyr, rhieni/gofalwyr neu bobl ifanc) ac nid oedd mewn sefyllfa i gynnal ymarfer gorchwyl a gorffen rhagnodol iawn (e.e. adnoddau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, cynnwys y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd). Er hyn, galluogodd cylch gwaith ymchwiliol y panel y grŵp i feddwl yn fawr ac ymgysylltu ag ymarferwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd arloesol ac effeithiol yng Nghymru ac yn fyd-eang, wrth ystyried y nodau a'r heriau sy'n wynebu maes unigryw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, fel pwnc trawsddisgyblaethol. Dim ond llond llaw o athrawon ysgol ledled Cymru sydd wedi cael hyfforddiant helaeth a/neu sy'n meddu ar gymwysterau academaidd mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Felly, roedd y panel yn cynnwys arbenigwyr academaidd mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, darparwyr gwasanaethau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, ac athrawon â chyfrifoldebau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (gweler Atodiad 2 ac Atodiad 3)

Wrth i Lywodraeth Cymru, gan gydweithio ag ysgolion arloesi, ystyried dyfodol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, mae'r panel yn rhagweld ac yn disgwyl y bydd amrywiaeth o gyfleoedd i gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, cymunedau a darparu gwasanaethau mewn ffordd ddiogel a chreadigol, yn ehangach er mwyn rhoi rhan ganolog iddynt wrth i'r ysgolion arloesi gynllunio'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd newydd.



# Prif ganfyddiadau

## Mae plant yn dysgu am ryw a pherthnasoedd cyn iddynt gyrraedd yr ysgol

Mae plant yn dysgu am rywioldeb a pherthnasoedd ymhell cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Cyn gynted ag y byddant yn dod yn rhan o'r byd cymdeithasol, byddant yn rhyngweithio gan ddefnyddio negeseuon cymhleth a chroes yn aml ynghylch rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd, drwy'r canlynol, er enghraifft: hysbysebion, llyfrau, cerddoriaeth, cyfryngau cymdeithasol a theledu ac aelodau o'r teulu, cyfoedion a chymunedau. Bydd plant ifanc iawn hyd yn oed yn delio ag amrywiaeth o normau cymdeithasol a diwylliannol ar y materion hyn a fydd yn llywio eu bywydau o ddydd i ddydd a'r dyfodol y maent wedi'i ddychmygu. Gall y wybodaeth hon, a elwir yn aml yn 'y cwricwlwm cudd' gynnwys camsyniadau a chamwybodaeth. Gall hefyd herio disgwyliadau oedolion o'r hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddysgu ac yn ei brofi, a rhagori ar y disgwyliadau hynny.

Mae gan raglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ar sail tystiolaeth ran hanfodol yn y broses o weithio gyda phlant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a chymunedau er mwyn archwilio'r wybodaeth a'r gwerthoedd am rywioldeb a pherthnasoedd y mae plant wedi'u hamlygu iddynt eisoes ac y maent yn aml yn cael trafferth gwneud synnwyr ohonynt eu hunain. Drwy adeiladu ar ddysgu a phrofiad anffurfiol plant a phobl ifanc *eu hunain*, all-lein ac ar-lein, mae gan ysgolion y posibilrwydd o greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu safbwyntiau a'u teimladau ar faterion Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Yn wir, ysgolion yw'r llefydd gorau ar gyfer dysgu o gwestiynau ac anghenion plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt (e.e. o rywioldeb i gydsyniad rhywiol).

Gan weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol a chymunedau lleol, mae ysgolion hefyd yn llefydd pwysig ar gyfer atal, amddiffyn a newid. Maent yn llefydd a all gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder yn raddol i wybod ble a sut i geisio cyngor a chymorth mewn perthynas â rhagfarn, gwahaniaethu, cam-drin a thrais.

## Mae angen diweddaru'r gyfraith a'r canllawiau presennol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Ers datganoli, mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru wedi parhau i ymgorffori polisïau a chanllawiau mewn model cyfiawnder cymdeithasol o hawliau, tegwch a llesiant. Yn 2010, cyhoeddodd Cymru ganllawiau ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, a osododd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn gadarn yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio hawliau'r plentyn i fanteisio ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysfawr sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i wneud dewisiadau hyddysg sy'n cefnogi profiadau bywyd cadarnhaol, yn cynnwys llesiant rhywiol a pherthnasoedd iach.

Mae ymchwil ryngwladol yn nodi mai'r rhaglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mwyaf effeithiol yw'r rhai sydd â dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch

rhwng y rhywiau. O'r cychwyn, roedd y panel yn ymrwymedig i atgyfnerthu ymhellach a chynnal dull gweithredu Cymru mewn perthynas â hawliau a thegwch drwy osod polisïau ac arfer yn CCUHP, y Ddyletswydd Cydraddoldeb (2010), Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015) a'r Strategaeth Genedlaethol ddiweddar (2016), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Ymhellach, mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2016-2021 yn cynnwys amcan penodol sy'n ymwneud ag ymgorffori Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn fframwaith tegwch rhwng y rhywiau (Amcan 4).

Fodd bynnag, er y gellir adlewyrchu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau yn y canllawiau, nid yw'r canllawiau hyn yn statudol, ac ni chaiff y dull hwn ei adlewyrchu yn y ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Ar hyn o bryd, mae'r unig ofyniad gorfodol yn ymwneud ag 'Addysg Rhyw' fel yr amlinellir yn Adran 579 (1) o Ddeddf Addysg 1996 ac mae'n rhoi'r diffiniad bod 'addysg rhyw' yn cynnwys dysgu am:

(a) Syndrom Diffyg Imiwnedd Caffaeledig a Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol,

(b) unrhyw glefyd arall a drosglwyddir yn rhywiol.

## Statws presennol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru

Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol mewn ysgolion uwchradd, o dan Ddeddf Addysg 2002. Mae hefyd yn ofynnol i ysgolion cynradd gael polisi ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gan amlinellu manylion eu rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd neu egluro eu penderfyniad i beidio â darparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

Daeth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ym mis Medi 2003. Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r fframwaith ABCh ar gyfer cynllunio a chyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y canllawiau anstatudol diweddaraf yn 2010. Mae gan rieni yr hawl i dynnu eu plentyn o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Ysgolion sy'n gyfrifol am anghenion datblygiad proffesiynol staff o ran Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, er ei bod yn ofynnol i bob aelod o staff mewn ysgolion yng Nghymru gwblhau hyfforddiant diogelu a hyfforddiant lefel 1 ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gan fod Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, yr ysgol fydd yn pennu'r broses o gynllunio a gweithredu ei rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn unol â'i pholisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Mae canllawiau ysgolion 2010, er eu bod yn gynhwysfawr o ran eu cwmpas, yn anstatudol. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at amrywiaeth eang o ran faint o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a gaiff plant a phobl ifanc a'i hansawdd. Fel y mae prif ganfyddiadau'r ddarpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn ei nodi isod, yn rhy aml, mae llwyddiant Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn dibynnu ar ddiddordebau a brwdfrydedd athrawon unigol neu arweinwyr ysgolion sydd â chyfrifoldebau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd/ABCh.

## Prin yw'r Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir mewn ysgolion ar hyn o bryd

O ystyried yr ymchwil sydd ar gael yng Nghymru, ymchwil ryngwladol ac adolygiad thematig diweddar Estyn (2017) ar Berthnasoedd Iach, gellid dadlau'r canfyddiadau allweddol canlynol:

**Yn aml, mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhy fiolegol, yn rhy negyddol, ac ni roddir digon o ffocws ar hawliau, tegwch, emosiynau a pherthnasoedd**
Mae rhaglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn ysgolion wedi'u beirniadu am fod yn 'rhy fiolegol' ar draul canolbwyntio ar hawliau'r plentyn, tegwch, emosiynau a pherthnasoedd; ac yn rhy negyddol gan ganolbwyntio gormod ar risg, ar draul agweddau cadarnhaol ar berthnasoedd a rhywioldeb.

**Mae bwlch rhwng profiadau byw plant a phobl ifanc a chynnwys Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**
Nid yw'r Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir ar hyn o bryd yn galluogi plant a phobl ifanc i ddeall a thrafod yr heriau a'r cymhlethdodau y gallant eu hwynebu mewn perthynas â materion yn ymwneud â rhywioldeb a pherthnasoedd all-lein ac ar-lein (gweler Renold a Mcgeeney 2017). Mae bwlch hefyd rhwng yr hyn y mae plant a phobl ifanc am ei ddysgu a'r Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a gânt mewn cyd-destunau ysgol.

**Nid oes digon o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**
Nid yw plant a phobl ifanc yn cyfrannu digon tuag at ddatblygu'r cwricwlwm, cymorth gan gyfoedion ac addysg, na gweithredaeth gymunedol ehangach ar faterion Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Nid yw ychydig o dan hanner yr ysgolion yng Nghymru yn cynnwys myfyrwyr wrth ddatblygu polisïau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (SHRN 2015[1])

**Anaml y bydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn gynhwysol ac mae'n rhy heteronormadol[2]**
Prin yw'r rhaglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n mynd i'r afael ag anghenion amrywiol plant a phobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas â Phobl Lesbiaidd, Hoyw,

[1] Partneriaeth yw'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) rhwng y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cancer Research UK a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru drwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant. Gwnaed y gwaith gyda chymorth DECIPHer, Canolfan Ragoriaeth mewn Ymchwil ar Iechyd y Cyhoedd UKCRC. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyllid ar y cyd (MR/KO232331/1) gan Sefydliad Prydeinig y Galon, Cancer Research UK, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y Cyngor Ymchwil Feddygol, Llywodraeth Cymru a'r Wellcome Trust, dan nawdd Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol y DU.

[2]Mae Heteronormadol yn derm a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth am y dybiaeth bod pawb yn heterorywiol, neu y dylent fod yn heterorywiol, a herio'r dybiaeth honno.

Ddeurywiol,Trawsryweddol a 'Queer'+[3] ynghyd â hunaniaeth, profiadau, perthnasoedd a hawliau rhywedd a rhywiol lleiafrifol eraill.

**Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn annigonol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau.**
Mae prinder Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau a chyfleoedd i gael gafael ar wybodaeth am ble a sut i geisio cyngor a chymorth.

**Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel: yn dechrau'n gynnar; yn addasadwy ac yn seiliedig ar anghenion; yn cynnig cwricwlwm sbiral; yn cydweithredu â darparwyr allanol; o hyd digonol; yn ymgysylltiol a chyfranogol; ac yn creu amgylchedd dysgu diogel, parchus a chyfrinachol.**
Mae synthesis ac adolygiad diweddar o waith ymchwil rhyngwladol ar safbwyntiau plant a phobl ifanc yn awgrymu bod y nodweddion hyn yn cyfrannu at ddarpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel[4].

**Dull gweithredu ysgol gyfan yw'r un elfen bwysicaf ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd effeithiol o ansawdd uchel**
Mae dull gweithredu ysgol gyfan at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn atgyfnerthu negeseuon allweddol ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac mewn rhannau gwahanol o'r ysgol a'r gymuned. Caiff dull gweithredu ysgol gyfan ei gefnogi gan asiantaethau allanol a bydd yn fwy tebygol o arwain at newid agweddau ac ymddygiad.

**Yn aml, ni roddir digon o adnoddau ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fel maes cwricwlwm, ac ni roddir blaenoriaeth uchel iddo mewn ysgolion, sy'n arwain at ddarpariaeth anghyson ac anghyfartal**
Fel un o bynciau sylfaenol y cwricwlwm gyda chanllawiau anstatudol, mae'r Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir yn dameidiog ac yn methu â diwallu anghenion POB plentyn a pherson ifanc.

**Mae diffyg ymwybyddiaeth ac addysg ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**
Prin yw'r ysgolion sy'n ymwybodol o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015) a chanllawiau ac adnoddau cysylltiedig. Dim ond hanner y myfyrwyr ysgol uwchradd yng Nghymru sy'n cytuno bod eu hysgol yn eu haddysgu ynghylch pwy y dylent gysylltu â hwy os byddant hwy neu ffrind yn wynebu trais mewn perthynas (SHRN, 2015[5]).

---

[3] Mae'r arwydd '+' yn cydnabod lleiafrifoedd categorïau rhyw, rhywedd a rhywiol, hunaniaeth, ymadroddion a chyfeiriadedd.

[4] (Pound et al 2017). Pound, P, Denford, S, Shucksmith, J, Tanton, C, Johnson, A, Owen, J, Hutten, R, Mohan, L, Bonell, C, Abraham, C a Campbell, R, 2017, 'What is best practice in sex and relationship education? A synthesis of evidence, including stakeholders' views'. BMJ Open, cyf 7.

[5] Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2015) 'Student Health and Wellbeing Survey 2015'. Data heb eu cyhoeddi. Cyrchwyd mis Mai 2017

**Mae angen gweithlu hyderus wedi'i hyfforddi'n dda er mwyn sicrhau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel a ddarperir yn effeithiol**

Nid yw'r rhan fwyaf o athrawon Addysg Rhyw a Pherthnasoedd wedi cael unrhyw hyfforddiant arbenigol mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn nodi nad ydynt wedi'u harfogi'n ddigonol wrth ddarparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n peri pryder i athrawon a myfyrwyr. Nid yw tua un rhan o dair o'r ysgolion yng Nghymru yn rhoi unrhyw hyfforddiant staff o ran diogelu pobl ifanc yn benodol ynghylch materion sy'n ymwneud ag iechyd rhywiol a pherthnasoedd (SHRN, 2015[6]).

**Er mwyn sicrhau bod pobl yn manteisio ar raglenni hyfforddiant arbenigol mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, bydd angen i'r rhaglen gael ei chyllido'n gyhoeddus a bydd angen i'r pwnc gael yr un statws â meysydd eraill o'r cwricwlwm.**

Y rheswm dros y prinder hyfforddiant arbenigol mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ar gyfer athrawon ar hyn o bryd yn rhannol yw statws isel Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fel pwnc diarholiad nad yw'n orfodol.

[6] Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2015) 'Student Health and Wellbeing Survey 2015'. Data heb eu cyhoeddi. Cyrchwyd mis Mai 2017

# Meysydd allweddol ac argymhellion gan y panel o arbenigwyr

## Maes Allweddol 1: Diffiniad, statws a chanllawiau

### O ryw a pherthnasoedd i rywioldeb a pherthnasoedd

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth a dull gweithredu cyfannol a chynhwysol ar gyfer y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd newydd, mae'r panel yn argymell y dylid newid yr enw o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd.

Caiff y diffiniad newydd hwn ei lywio gan ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o 'rywioldeb', gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch, ac mae'n defnyddio'r diffiniad hwnnw. Mae'r term 'rhywioldeb' yn pwysleisio dull cyfannol y panel a gaiff ei lywio gan ffactorau biolegol, seicolegol, cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, diwylliannol, cyfreithiol, hanesyddol, crefyddol ac ysbrydol sy'n rhyngweithio, fel y nodir gan Sefydliad Iechyd y Byd (ceir diffiniadau gweithredol y panel o ryw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd a diffiniadau allweddol eraill a ddefnyddir yn yr adroddiad yn Atodiad 4).

### Diffiniad gweithredol o Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd

Nod Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n gynhwysol, yn gyfannol, ac yn seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau yw galluogi a grymuso plant a phobl ifanc yn raddol i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd moesegol sydd eu hangen arnynt i archwilio a deall sut mae rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd wedi llywio ac yn parhau i lywio bywydau pobl ledled y byd.

Caiff ei arwain gan anghenion a phrofiadau, a'i nod yw galluogi POB plentyn a pherson ifanc i weld ei hun ac eraill yn yr hyn y mae'n ei ddysgu ac annog plant a phobl ifanc i uniaethu a lleisio barn ar yr anghydraddoldebau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u llesiant eu hunain ac eraill.

Bydd yn ataliol ac yn amddiffynnol, a'i nod fydd cefnogi hawliau plant a phobl ifanc i fwynhau bywydau rhywiol a pherthnasoedd teg, boddhaus, diogel ac iach drwy gydol eu hoes, yn cynnwys y gallu i gydnabod a deall gwahaniaethu, perthnasoedd difrïol, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol, a gwybod sut a ble i geisio cymorth a chyngor (e.e. ar faterion iechyd rhywiol, lesbiaid, hoyw, ddeurywiol, trawsryweddol a ‘queer’ ac addysg ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.)

### Addysg Rhyw a Pherthnasoedd statudol fel hawl yn y cwricwlwm newydd

Mae datganiad sefyllfa Rhwydwaith Ewrop o Ombwdsmyn dros Blant (ENOC) 2017 ar Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb Gynhwysfawr yn nodi bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael addysg gyfannol a chynhwysol o ansawdd uchel am rywioldeb a pherthnasoedd (ENOC 2017). O dan y cwricwlwm newydd arfaethedig, bydd 'Dyfodol Llwyddiannus' (2015), un elfen ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant.

Wedi'i lywio gan ymchwil Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ryngwladol bresennol ar ganlyniadau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd anstatudol (Renold a McGeeney 2017), mae datganiadau'r CCUHP diweddar (2016, Adran 65b) ac ENOC (2017) bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ystyrlon, cynhwysfawr a chynhwysol, o ansawdd uchel, ac Amcan 2 yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021) sy'n nodi bod yn rhaid i'r cwricwlwm newydd gynnwys pwysigrwydd perthnasoedd diogel, teg ac iach, mae'r panel yn argymell y dylai Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fod yn statudol yn y cwricwlwm newydd ar gyfer pob ysgol, o'r Cam Sylfaen i oedran gadael addysg orfodol (3-16).

**Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gyfannol a chynhwysol o ansawdd uchel yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol ac amddiffynnol ar gyfer plant, pobl ifanc a'u cymunedau a gall:**

- helpu i leihau bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig ac yn gwella diogelwch a llesiant i ddysgwyr lesbiaid, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a ‘queer’;
- helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfathrach rywiol ac iechyd atgynhyrchiol;
- helpu i herio stereoteipiau rhywedd a rhywiol, ac yn annog ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a thegwch rhywedd a rhywiola thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- helpu i wella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o berthnasoedd diogel, cydsyniol, teg a chadarnhaol.

**Dechrau proses yw deddfwriaeth a chanllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd statudol**

Mae'n hanfodol bod Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn statudol yn y cwricwlwm newydd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn gallu manteisio ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel. Heb y newid deddfwriaethol hwn, mae'n amlwg y bydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn dal i fod yn flaenoriaeth isel i ysgolion, nad yw'n cael llawer o sylw, ac na chaiff hawliau, anghenion, cwestiynau a phryderon plant a phobl ifanc eu ceisio na'u cyflawni a lle na chaiff anghydraddoldebau ac annhegwch o ran rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd eu herio a'u dileu.

Fodd bynnag, dim ond dechrau'r broses o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysol, cyfannol, o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch yw'r cam o wneud Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn statudol[7]. Mae'n ddechreuad ar gyfer datblygu canllawiau statudol cynhwysfawr sy'n

[7] Cylch gwaith y panel oedd ystyried rôl Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o fewn y cwricwlwm newydd, nad yw'n berthnasol i ysgolion annibynnol. Fodd bynnag, mae'r panel yn dadlau y gall ysgolion annibynnol hefyd ddarparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd a nodir yn yr adroddiad hwn.

ymgorffori'r egwyddorion craidd a bennwyd yn yr adroddiad hwn a datblygu a chyflwyno hyfforddiant proffesiynol er mwyn sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau a'r gallu i gyflwyno a meithrin y partneriaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel.

**Argymhellion**

1. **Dylid newid enw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd. Bydd y diffiniad newydd hwn yn dilyn diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o 'rywioldeb', gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch.**

   **Gwneud Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd ar gyfer pob ysgol (3-16 oed) yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd yn argymhelliad 2.**

   **Datblygu canllawiau statudol newydd ar gyfer y Cam Sylfaen, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd yn argymhelliad 2.**



## Maes Allweddol 2: Cynnwys y Cwricwlwm, Addysgeg ac Asesu

### Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd byw


Yn Dyfodol Llwyddiannus, mae Donaldson (2015, t.14) yn amlinellu 10 egwyddor ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm. Mae'n nodi y dylai'r cwricwlwm fod yn "ddilys, wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn ymatebol, yn gynhwysol, yn uchelgeisiol, yn rymusol, yn unedig, yn ddiddorol, wedi'i seilio ar sybsidiaredd ac yn hawdd ei drin". Mae llawer o'r nodweddion hyn wedi'u cynnwys yn yr egwyddorion arweiniol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a sefydlwyd gan y panel: *yn seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau; yn greadigol a chwilfrydig; yn rymusol a thrawsnewidiol; yn seiliedig ar brofiadau ac wedi'i gyd-gynhyrchu; yn gyfannol*; *yn gynhwysol; yn amddiffynnol ac yn ataliol.*

Gyda hawliau plant a thegwch rhwng y rhywiau yn egwyddorion craidd sylfaenol, bydd pob isegwyddor yn cefnogi'r broses o greu amgylchedd dysgu diogel a grymusol ar gyfer yr hyn y mae'r panel yn ei alw'n "cwricwlwm byw". Mae Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn gwricwlwm perthnasol, sy'n seiliedig ar anghenion ac sy'n cydnabod dysgu a phrofiad plant a phobl ifanc eu hunain, yn cysylltu â nhw ac yn eu datblygu.

Bydd cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd cyfannol, cynhwysol ac addasadwy yn gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaeth, ac yn esblygu er mwyn cyflawni materion a gwybodaeth fiolegol, gymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol newidiol. Gan ddefnyddio addysgeg ddiddorol, beirniadol, creadigol a thrawsnewidiol, bydd yn cydweddu â galluoedd esblygol plant a phobl ifanc er mwyn eu galluogi i weld eu hunain ac eraill yn yr hyn maent yn ei ddysgu a'i brofi (e.e. gyda chyfoedion, teulu, cymuned, materion cyfoes go iawn ac ati).

Yn y bôn, caiff ei lywio gan yr erthyglau amddiffynnol a geir yn y CCUHP, gan alluogi plant a phobl ifanc i feithrin eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o ran y ffordd i gydnabod a cheisio cyngor a chymorth mewn perthynas â gwahaniaethu, perthnasoedd difrïol a thrais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Bydd yn gadarnhaol ac yn rymusol, a bydd hefyd yn gwahodd plant a phobl ifanc i uniaethu, meithrin cydberthnasau ag eraill a chael cymorth i weithredu ar yr anghyfiawnder yn eu bywydau eu hunain ac ym mywydau a llesiant eraill.

**Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd: Cwricwlwm Byw**




Mae **Addysg Rhyw a Perthnasoedd sy'n Seiliedig ar Hawliau a Thegwch Rhwng y Rhywiau** yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc i gael Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n berthnasol, yn gyfannol, yn gynhwysol ac yn grymuso, sy'n seiliedig ar degwch rhwng y rhywiau, cyfiawnder cymdeithasol, diogelwch a llesiant ac sy'n hyrwyddo'r rhain

Mae **Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Greadigol a Chwilfrydig** yn cefnogi cwricwlwm llawn cwestiynau ac yn defnyddio addysgeg greadigol er mwyn hwyluso amgylchedd dysgu moesegol, diogel ac agentig.

Mae **Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n Grymuso ac yn Drawsnewidiol** yn creu cwricwlwm cadarnhaol a thrawsnewidiol sy'n gwahodd plant a phobl ifanc i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ar gyfer tegwch a llesiant rhwng y rhywiau, rhywiol ac o ran perthnasoedd.

Caiff **Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n Seiliedig ar Brofiad ac a Gyd-gynhyrchir** ei ddatblygu gyda phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau cwricwlwm perthnasol ac ymatebol sy'n gwella llais disgyblion a chyfryngaeth.

Mae **Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Gyfannol** yn archwilio'r ffyrdd cydgysylltiedig y mae rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd yn llywio bywydau pobl ledled y byd.

Mae **Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Gynhwysol** yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaeth mewn perthynas â meysydd rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd.

Mae **Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Amddiffynnol ac Ataliol** yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu: llythrennedd cymdeithasol, emosiynol a chorfforol; gwydnwch er mwyn ymdopi â newid, gwrthdaro a phwysau; y wybodaeth i gydnabod perthnasoedd difrïol; a'r hyder i geisio cymorth

**Asesiad o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fyw**

Er mwyn ymgorffori'r egwyddorion craidd a amlinellir uchod, mae'r panel yn argymell y dylai Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant, sy'n cynnwys elfennau o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gael statws cyfartal â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, a statws cyfartal â meysydd eraill *o fewn* Iechyd a Llesiant. Dylai asesiadau hefyd gael statws cyfartal. Dan arweiniad argymhellion Donaldson ei hun, mae'r panel yn dadlau y dylid cefnogi *Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Byw* drwy wneud trefniadau asesu cadarn ar gyfer *Asesiad Byw* ystyrlon, rhyngweithiol ac arloesol er mwyn cefnogi llais a chyfrwng disgyblion.

Bydd asesiad sy'n seiliedig ar brosiect ag effeithiau a chanlyniadau sy'n effeithio ar y byd go iawn (e.e. yn debyg i Heriau Cymuned Bagloriaeth Cymru) yn cysylltu'n fwy uniongyrchol â phryderon a buddiannau plant a phobl ifanc eu hunain. Bydd hefyd yn cyflawni 4 diben y cwricwlwm newydd sy'n annog plant a phobl ifanc i fod: *yn ddinasyddion sy'n wybodus yn foesegol; yn unigolion iach a hyderus*; *yn gyfranwyr mentrus a chreadigol;* ac yn *ddysgwyr uchelgeisiol a galluog.*

**Pwysigrwydd dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**

Bydd cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd byw effeithiol yn ymestyn i ddull gweithredu ysgol gyfan ac yn cael ei gynnwys ynddo. Mae'r panel yn cefnogi canllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Llywodraeth Cymru (2010) a Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar gyfer ysgolion sy'n nodi mai dull gweithredu ysgol gyfan yw'r un elfen bwysicaf ar gyfer addysg iechyd a llesiant o ansawdd uchel.

Mae dull ysgol gyfan at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn golygu y caiff yr egwyddorion craidd sy'n llywio'r broses ddysgu a phrofiad o sesiynau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a gynlluniwyd (yn yr ystafell ddosbarth neu y tu allan) eu

hatgyfnerthu (ac, yn bwysicach, na chânt eu tanseilio) mewn rhannau gwahanol o'r ysgol a'r gymuned. Mewn perthynas ag atal, diogelu a thrawsnewid, mae dulliau gweithredu ysgol gyfan yn debygol o arwain at newidiadau diwylliannol estynedig ar lefel y dysgwr unigol, yn ogystal ag ymysg staff yr ysgol a chyrff llywodraethu a'r gymuned ysgol ehangach. Felly, dylai ysgolion arloesi, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau arbenigol, archwilio sut y gallai elfen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant a'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael eu hymgorffori mewn 'dull gweithredu ysgol gyfan' gyda'r nod o ddatblygu canllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd newydd a chynhwysfawr yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd a 4 diben y cwricwlwm newydd.

**Dull Gweithredu Ysgol Gyfan at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd: Prif Feysydd**

1. arweinyddiaeth a pholisïau ysgolion
2. dysgu proffesiynol
3. dysgu'r myfyriwr
4. meithrin partneriaeth gymunedol
5. prosesau diogelu a chymorth ar gyfer staff a myfyrwyr
6. diwylliant ac amgylchedd yr ysgol.
7. llais myfyrwyr a chyfranogiad
8. gwerthuso ac effaith

Mae'r panel hefyd yn awgrymu y caiff dulliau gweithredu ysgol gyfan at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd eu datblygu ochr yn ochr â rhaglenni ataliol sy'n esblygu a'u hintegreiddio ynddynt er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc mewn perthynas â bwlio, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a phrosesau diogelu er enghraifft.

**Argymhellion**

2. **Dylai Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael ei lywio gan yr egwyddorion craidd a'r meysydd thematig canlynol gyda deilliannau dysgu clir a all esblygu er mwyn cyflawni materion a gwybodaeth fiolegol, gymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol newidiol.**

   Ymysg yr egwyddorion craidd mae'r canlynol: Hawliau a Thegwch Rhwng y Rhywiau; Creadigol a Chwilfrydig; Grymuso a Thrawsnewidiol; yn Seiliedig ar Brofiadau ac wedi'i Gyd-gynhyrchu; Yn gyfannol; Yn gynhwysol; yn Amddiffynnol ac Ataliol

3. **Dylai'r Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fod yn ymgysylltiol, perthnasol ac yn briodol o ran datblygiad gyda llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgu a phrofiad.**

4. **Dylai ysgolion arloesi, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a sefydliadau arbenigol, archwilio sut y gellir cynnwys y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn 'dull gweithredu ysgol gyfan'.**

5. **Dylid rhoi'r un statws i Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Dylai Addysg Rhyw a Pherthnasoedd hefyd gael yr un statws â meysydd eraill o fewn Iechyd a Llesiant a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ehangach, yn cynnwys trefniadau asesu cadarn sy'n cefnogi llais disgyblion.**

## Maes Allweddol 3: Hyfforddiant a Safonau

### Yr angen dybryd am hyfforddiant proffesiynol

Mae rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i gyrraedd Safonau Statws Athro Cymwysedig fel rhan o'r gofyniad i addysgu mewn lleoliadau ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r safonau yn sicrhau y gall athrawon addysgu'r cwricwlwm, a allai gynnwys Addysg Rhyw a Pherthnasedd fel rhan o'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Fodd bynnag, nid oes angen unrhyw hyfforddiant arbenigol ar hyn o bryd.

Mae angen gweithlu hyderus wedi'i hyfforddi'n dda er mwyn sicrhau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel mewn ysgolion. Heb hyfforddiant arbenigol, gall ysgolion naill ai osgoi cwmpasu pynciau yr ystyrir eu bod yn sensitif neu'n heriol yn gyfan gwbl neu gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn ffordd sy'n methu â diogelu plant a phobl ifanc yn ddigonol.

Mae'r panel yn argymell y dylid cynnwys y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn dull gweithredu ysgol gyfan. Mae hyn yn golygu y bydd y gweithlu sy'n ofynnol i gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cynnwys holl staff ysgol, yn cynnwys athrawon; cynorthwywyr addysgu; staff cymorth ysgol; llywodraethwyr ysgol; gweithwyr iechyd proffesiynol fel nyrsys ysgol ac arbenigwyr iechyd rhywiol, gweithwyr o asiantaethau arbenigol fel y sawl sy'n gweithio yn y sectorau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol,  gwaith ieuenctid a chymunedol; addysgwyr sy'n gyfoedion a bron yn gyfoedion a mentoriaid sy'n gyfoedion; ac arweinwyr crefyddol ac ysbrydol.

Er mwyn sicrhau y caiff Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ei chyflwyno gan weithlu hyderus a medrus, mae'r panel yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu llwybrau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol cenedlaethol arbenigol mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cynllunio ac yn arfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

### Datblygu llwybrau hyfforddiant newydd mewn addysg gychwynnol athrawon a llwybrau ar ôl cymhwyso i athrawon gweithredol

Ni chafwyd rhaglen datblygu proffesiynol genedlaethol ardystiedig ar gyfer athrawon gweithredol er mwyn cefnogi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd neu ABCh yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r broses bresennol o ddiwygio addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru yng ngoleuni adroddiadau Donaldson (2015) a Furlong (2015) yn cyflwyno cyfle i wneud newidiadau i'r ffyrdd y caiff athrawon dan hyfforddiant eu paratoi i greu a chyflwyno cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

Mae'r panel hefyd yn argymell y dylai'r Llywodraeth gefnogi'r broses o ddatblygu llwybr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon yn ogystal â llwybrau ar ôl cymhwyso ar gyfer athrawon gweithredol. Byddai hyn yn cynnwys y cyfle i rai aelodau o'r gweithlu gael cymhwyster arbenigol a chael cyfle i ddatblygu yn broffesiynol a chael cymhwyster Addysg Rhyw a Perthnasoedd ar lefel Meistr.

Ni wyddys llawer am yr hyfforddiant a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer addysgwyr sy'n gweithio i sefydliadau arbenigol a gwasanaethau cymunedol yng Nghymru a ph'un a yw hyn yn diwallu'r angen presennol. Gwyddom fod nifer o raglenni hyfforddiant presennol yng Nghymru ac mae'r panel yn awgrymu y dylid ystyried yr anghenion hyn wrth fapio arferion presennol ac adeiladu llwybrau hyfforddiant yn y dyfodol o ystyried argymhelliad y panel y dylid cynnwys y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

## Monitro arweinyddiaeth a chymorth

### Arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ymroddedig ym mhob ysgol

Mae'r panel yn argymell y dylai fod gan bob ysgol, yn cynnwys ysgolion â nodweddion crefyddol, arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ymroddedig gydag oriau neilltuedig a mynediad at adnoddau a chanllawiau er mwyn cydlynu dull gweithredu ysgol gyfan at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

Bydd y rôl hon yn cynnwys ymchwilio i arfer gorau a'i hyrwyddo, hwyluso hyfforddiant / mentora gan gyfoedion ynghyd â chydweithredu â sefydliadau arbenigol ac ymgorffori llais disgyblion mewn arlwy Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan.

### Arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd penodol mewn awdurdodau lleol yn gweithio gyda chonsortia

Mae nifer fawr o athrawon gweithredol y mae angen hyfforddiant arnynt mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Bydd hefyd yn cymryd amser cyn y caiff unrhyw newidiadau a wneir i addysg gychwynnol athrawon effaith sylweddol ar allu'r proffesiwn addysg i gynnig Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel fel y nodir uchod. Caiff y broses o gydweithredu ag asiantaethau allanol a all gyflwyno arbenigedd, sgiliau a dulliau gweithredu addysgol effeithiol i Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ei werthfawrogi gan bobl ifanc a staff ysgolion (Estyn 2017), ac mae hefyd yn hanfodol yn y byrdymor a'r hirdymor.

Er mwyn helpu ysgolion i reoli cyfranogiad partneriaid cymunedol, mae'r panel yn argymell y dylai pob awdurdod lleol gael arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gyda chymorth y consortia a'r rhwydwaith ymchwil, hyfforddiant ac ymarfer cenedlaethol.

Rôl arweinydd yr awdurdod lleol fydd rhoi cymorth allanol, cydlynu cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol a sicrhau cysondeb ac ansawdd y mewnbwn gan bartneriaid o'r gymuned leol ac asiantaethau a all helpu ysgolion i gynnwys Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn dull gweithredu ysgol gyfan.

**Monitro, gwella ansawdd a rôl Estyn**
Fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, bydd angen i ysgolion adolygu eu cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd bob blwyddyn, myfyrio arno a'i ddiwygio.

Mae'r panel hefyd yn argymell y dylai Estyn chwarae rôl allweddol yn arolygu'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, yn cynnwys rhoi dull gweithredu ysgol gyfan ar waith yn effeithiol, fel rhan o drefniadau arolygu newydd a gaiff eu datblygu i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Bydd angen i staff Estyn gael hyfforddiant er mwyn sicrhau y gallant fonitro ansawdd yr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir ac adrodd arni yn effeithiol.

Mae adolygiadau Estyn o Addysg Perthnasoedd Iach (2017) ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (2007) wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i'r panel o'r Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir yng Nghymru. Argymhellir y dylai Estyn lunio adroddiad bob chwe mis ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd er mwyn cefnogi'r broses o'i rhoi ar waith yn effeithiol yn y camau cychwynnol. Mae'r panel yn cydnabod na fydd hyn yn ofynnol ar gyfer meysydd eraill o'r cwricwlwm ond y gall fod yn angenrheidiol er mwyn craffu mwy ar yr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir gan y bydd yn faes newydd o'r cwricwlwm ar gyfer rhai ysgolion.

**Argymhellion**

**6. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu llwybr datblygiad proffesiynol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, yn benodol ar gyfer pob cam o addysg, i'w gynnwys mewn addysg gychwynnol athrawon a chyrsiau dysgu proffesiynol.**

**Byddai'r llwybr hwn yn rhoi cyfle iddynt wella eu datblygiad proffesiynol ac arbenigo mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gan roi cyfle i'r gweithlu gael cymhwyster lefel Meistr mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.**

**7. Dylai pob ysgol gael arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd arbenigol hyfforddedig gyda'r gallu i fanteisio ar adnoddau a chanllawiau i gydlynu cwricwlwm sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau. Dylid neilltuo yr un faint o oriau i'w gyflwyno ym mhob cyfnod allweddol â phynciau eraill y cwricwlwm. Dylai'r rôl hon gynnwys ymgorffori Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn dull gweithredu ysgol gyfan.**

**8. Dylai pob Awdurdod Lleol, gan weithio gyda Chonsortia, gael arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd penodol i roi cymorth allanol, i gydlynu DPP a sicrhau cysondeb ac ansawdd gan gydnabod y gall sefydliadau allanol arbenigol sy'n cynnwys darparwyr sydd wedi cael hyfforddiant addysgol, yn cynnwys yn y sector AB ac AU, wella cynnwys y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r broses o'i weithredu mewn dull gweithredu ysgol gyfan.**

**9. Dylai Estyn adeiladu ar newidiadau diweddar i'r fframwaith arolygu er mwyn ystyried y broses o arolygu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fel rhan o'r broses o sicrhau bod y trefniadau arolygu newydd yn addas ar gyfer y cwricwlwm newydd.**

**10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu nod rhagoriaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd er mwyn amlygu dulliau gweithredu ysgol gyfan rhagorol mewn perthynas â thegwch a chydraddoldeb rhwng y rhywiau ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.**

## Maes Allweddol 4: Ymchwil a Chymorth

### Mynd i'r afael â bylchau sylweddol mewn gwaith ymchwil

Er mwyn sicrhau rhagoriaeth addysgol mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, mae angen i Gymru fynd i'r afael ar unwaith â'r bylchau sylweddol yn y llenyddiaeth ymchwil ar yr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir ar hyn o bryd a darparu sail tystiolaeth gynaliadwy wrth i'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r rhaglenni ymyriad esblygu. Er enghraifft, ni cheir unrhyw waith ymchwil ansoddol na meintiol cadarn ar:

- Yr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir mewn ysgolion yng Nghymru, sut y caiff ei chyflwyno, ym mha gyd-destunau a gyda pha nodau / amcanion;

- Ansawdd y profiad o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ar gyfer myfyrwyr ac athrawon;

  Yn benodol, ni cheir digon o waith ymchwil ar yr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir a'i hansawdd mewn rôl ysgolion o natur crefyddol;yn y blynyddoedd cynnar; mewn ysgolion cynradd; mewn ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd ar gyfer myfyrwyr ag anableddau;

- Pa hyfforddiant proffesiynol a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer athrawon cynweithredol ac ôl-weithredol;

- Ansawdd hyfforddiant proffesiynol ar gyfer athrawon gweithredol ac ôl-weithredol, gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr cymunedol sy'n rhan o'r broses o gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd;

- Beth yw barn plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a chymunedau ehangach yng Nghymru am yr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir mewn ysgolion.


### Sefydlu Parth Hwb Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a rhwydwaith ymchwil, ymarfer a hyfforddiant ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Mae'n hanfodol cael sail ymchwil gadarn ar gyfer datblygu parth Hwb Addysg Rhyw a Pherthnasoedd y mae angen dirfawr amdano er mwyn helpu ysgol â'r her o gael y wybodaeth ddiweddaraf a manteisio ar adnoddau ac arbenigedd o ansawdd uchel. Byddai parth Hwb Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn ofod ar-lein rhyngweithiol lle y gall addysgwyr, ymchwilwyr, ysgolion a sefydliadau eraill gael gafael ar y canllawiau, adnoddau a syniadau diweddaraf.

Byddai parth Hwb Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael ei gefnogi gan rwydwaith ymchwil, ymarfer a hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Un o brif swyddogaethau rhwydwaith ymchwil, ymarfer a hyfforddiant ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fyddai gweithio gyda phartneriaid ymchwil er mwyn hwyluso'r gwaith ymchwil diweddaraf a rhannu arfer gorau ar gyfer y gymuned Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru. Yn y byrdymor, bydd gan y rhwydwaith rôl yn sicrhau y gall awdurdodau lleol ac ysgolion

ddatblygu a rhannu arfer gorau a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau o waith ymchwil newydd.

Yn y byrdymor a'r hirdymor, bydd y rhwydwaith yn chwarae rôl allweddol yn galluogi gwaith cydweithredol rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr ac ar draws y sectorau gwahanol sydd â rôl bwysig i'w chwarae yn darparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn ysgolion. Fel y nodir yn yr enghreifftiau niferus yn yr adroddiad ategol (Renold a McGeeney 2017), prin y caiff arfer gorau ei gyflawni mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd heb gydweithredu ag addysgwyr arbenigol, gwasanaethau arbenigol, ymchwilwyr neu gydweithredwyr eraill (e.e. o'r celfyddydau creadigol).



**Argymhelliad**

> **11. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Parth Hwb Addysg Rhyw a Pherthnasoedd er mwyn cefnogi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel mewn ysgolion a gwasanaethu rhwydwaith ymchwil, ymarfer a hyfforddiant Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gyda'r nod o hwyluso'r broses o ddarparu'r gwaith ymchwil diweddaraf a chreu cymuned ymarfer Addysg Rhyw a Pherthnasedd yng Nghymru.**



# Crynodeb o argymhellion

## Maes Allweddol 1: Diffiniad, statws a chanllawiau

**Argymhelliad 1:** Dylid newid enw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd. Bydd y diffiniad newydd hwn yn dilyn diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o 'rywioldeb', gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch.

Gwneud Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd ar gyfer pob ysgol (3-16 oed) yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd yn argymhelliad 2.

Datblygu canllawiau statudol newydd ar gyfer y Cam Sylfaen, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd yn argymhelliad 2.

## Maes Allweddol 2: Cynnwys y Cwricwlwm, Addysgeg ac Asesu

**Argymhelliad 2:** Dylai Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael ei lywio gan yr egwyddorion craidd a'r meysydd thematig canlynol gyda deilliannau dysgu clir a all esblygu er mwyn cyflawni materion a gwybodaeth fiolegol, gymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol newidiol.

Ymysg yr egwyddorion craidd mae'r canlynol Hawliau a Thegwch Rhwng y Rhywiau; Creadigol a Chwilfrydig; Grymuso a Thrawsnewidiol; yn Seiliedig ar Brofiadau ac wedi'i Gyd-gynhyrchu; Yn gyfannol; Yn gynhwysol; yn Amddiffynnol ac Ataliol

**Argymhelliad 3:** Dylai'r Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fod yn ymgysylltiol, perthnasol ac yn briodol o ran datblygiad gyda llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgu a phrofiad.

**Argymhelliad 4:** Dylai ysgolion arloesi, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a sefydliadau arbenigol, archwilio sut y gellir cynnwys yr elfen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o Faes Dysgu Phrofiad Iechyd a Llesiant mewn 'dull gweithredu ysgol gyfan’.

**Argymhelliad 5:** Dylid rhoi'r un statws i Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Dylai Addysg Rhyw a Pherthnasoedd hefyd gael yr un statws â meysydd eraill o fewn Iechyd a Llesiant a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ehangach, yn cynnwys trefniadau asesu cadarn sy'n cefnogi llais disgyblion.

## Maes Allweddol 3: Hyfforddiant a Safonau

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu llwybr datblygiad proffesiynol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, yn benodol ar gyfer pob cam o addysg, i'w gynnwys mewn addysg gychwynnol athrawon a chyrsiau dysgu proffesiynol.

Byddai'r llwybr hwn yn rhoi cyfle iddynt wella eu datblygiad proffesiynol ac arbenigo mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gan roi cyfle i'r gweithlu gael cymhwyster lefel Meistr mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

**Argymhelliad 7:** Dylai pob ysgol gael arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd arbenigol hyfforddedig gyda'r gallu i fanteisio ar adnoddau a chanllawiau i gydlynu cwricwlwm sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau. Dylid neilltuo yr un faint o oriau i'w gyflwyno ym mhob cyfnod allweddol â phynciau eraill y cwricwlwm. Dylai'r rôl hon gynnwys ymgorffori Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn dull gweithredu ysgol gyfan.

**Argymhelliad 8:** Dylai pob Awdurdod Lleol, gan weithio gyda Chonsortia, gael arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd penodol i roi cymorth allanol, i gydlynu DPP a sicrhau cysondeb ac ansawdd gan gydnabod y gall sefydliadau allanol arbenigol sy'n cynnwys darparwyr sydd wedi cael hyfforddiant addysgol, yn cynnwys yn y sector AB ac AU, wella cynnwys y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r broses o'i weithredu mewn dull gweithredu ysgol gyfan.

**Argymhelliad 9:** Dylai Estyn adeiladu ar newidiadau diweddar i'r fframwaith arolygu er mwyn ystyried y broses o arolygu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fel rhan o'r broses o sicrhau bod y trefniadau arolygu newydd yn addas ar gyfer y cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu nod rhagoriaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd er mwyn amlygu dulliau gweithredu ysgol gyfan rhagorol mewn perthynas â thegwch a chydraddoldeb rhwng y rhywiau ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

### Maes Allweddol 4: Ymchwil a Chymorth

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Parth Hwb Addysg Rhyw a Pherthnasoedd er mwyn cefnogi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel mewn ysgolion a gwasanaethu rhwydwaith ymchwil, ymarfer a hyfforddiant Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gyda'r nod o hwyluso'r broses o ddarparu'r gwaith ymchwil diweddaraf a chreu cymuned ymarfer Addysg Rhyw a Pherthnasedd yng Nghymru.

# Atodiad 1: Cylch gorchwyl

Gofynnwyd i'r panel ystyried yr amcanion canlynol, a nododd gylch gorchwyl y grŵp:

- Ystyried yr egwyddorion craidd a'r meysydd allweddol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysfawr a chynhwysol, 'o ansawdd uchel[8]'.
- Nodi enghreifftiau o arfer effeithiol ac arloesol[9] ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysfawr a chynhwysol, 'o ansawdd uchel'.
- Nodi'r rhwystrau i arfer effeithiol ac arloesol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysfawr a chynhwysol, 'o ansawdd uchel'.
- Nodi adnoddau addysgu a dysgu a chyfleoedd hyfforddiant sy'n helpu ysgolion i greu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysfawr a chynhwysol, 'o ansawdd uchel'.
- Nodi camau dilyniant i ysgolion greu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysfawr a chynhwysol, 'o ansawdd uchel'.
- Nodi ffyrdd effeithiol i blant a phobl ifanc lywio'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn y dyfodol, fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant.
- Nodi ffyrdd effeithiol i weithwyr addysg proffesiynol lywio'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn y dyfodol, fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant.

Roedd dau amcan ychwanegol hefyd yn rhan o gylch gorchwyl y panel. Mae'r ddau wedi'u harchwilio gan y panel a/neu gan y cadeirydd drwy eitemau penodol ar yr agenda mewn cyfarfodydd panel neu gyda'r gweision sifil perthnasol y tu allan i'r cyfarfodydd panel.

- Cyfrannu at y broses o ddatblygu'r canllawiau gwrth-fwlio diwygiedig (Parchu Eraill) – gweler Atodiad 7
- Cyfrannu at y broses o ddatblygu Canllawiau Rhyw a Pherthnasoedd yn y dyfodol.

Os gofynnir i'r panel arbenigol barhau â'i rôl i lywio'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm a chanllawiau newydd ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, yna gellir parhau i fynd i'r afael â'r eitemau hyn. Fel arall, sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen penodol ar gyfer pob eitem fydd y ffordd ymlaen fwyaf priodol.

---

[8] "Mae ARhPh o ansawdd uchel, a ddarperir yn rhan integredig o raglen ABCh ysgol gyfan sydd wedi'i chynllunio'n dda, yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at les dysgwyr" (Llywodraeth Cymru, 'Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion', 2010, para 2.9, t.9)

[9] Mae'r arferion yn cynnwys dulliau gweithredu (e.e. dull gweithredu ysgol gyfan) ac addysgeg (e.e. defnyddio'r celfyddydau creadigol).

# Atodiad 2: Aelodaeth y Panel o Arbenigwyr Addysg a Pherthnasoedd a'r ymgynghoriad allanol

### Aelodaeth

| | |
|---|---|
| Siriol Burford | RhCT / Ymgynghorydd Iechyd a Llesiant |
| Eleri Butler | Cymorth i Ferched Cymru |
| Mary Charles | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Mwenya Chimba | BAWSO |
| Sam Clutton | Barnados Cymru |
| Rosalyn Evans | Hafan Cymru (Prosiect Sbectrwm) |
| Corinne Fry | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru |
| Ellen Jones | Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr |
| Vivienne Laing[10] | NSPCC Cymru |
| Paul Lewis | Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |
| Faith McCready | Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgol Cymru Gyfan |
| Anthony Mulcahy | Estyn |
| Cressy Morgan | Arweinydd Iechyd a Llesiant (Consortia ERW) |
| Jan Pickles | Bwrdd Diogelu Cenedlaethol |
| Dr. Tamasine Preece | Ysgol Gyfun Bryntirion |
| Andrew White | Stonewall Cymru |
| Samantha Williams | Anabledd Dysgu Cymru |
| David Wright | South West Grid for Learning (SWGFL) |
| Dr. Honor Young | Prifysgol Caerdydd (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion) |

[10] Cynrychiolodd Ruth Mullineux NSPCC yn absenoldeb Vivienne Laing.

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Heather Temple-Williams | Cangen Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| Nia Griffiths | Arweinydd Iechyd a Lles Diwygio'r Cwricwlwm |
| Lloyd Hopkin | Arweinydd Fframwaith Cymhwysedd Digidol Diwygio'r Cwricwlwm |
| David Sargent | Is-adran y Cwricwlwm |

**Ymgynghoriad/cyfarfodydd ychwanegol gyda:**

| | |
|---|---|
| Lisa Drury-Lawson | Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol i Athrawon Cangen Gweithredu Furlong |
| Ceri Dunstan | Ymddiriedolaeth Terrence Higgins |
| Mark Isherwood | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| Parch Dr Philip Manghan | Gwasanaeth Addysg Gatholig, Cynghorydd i Gymru |
| Kate Murray | Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr |
| Gemma Nye | Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol i Athrawon a Changen Gweithredu Furlong |
| Dr. Debbie Ollis | Prifysgol Deaken, Melbourne, Awstralia. |
| Averil Petley | Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr |
| Y Tad Bernard Sixtus | Cyfarwyddwr Addysg Grefyddol Archesgobaeth Caerdydd |

# Atodiad 3: Agendâu cyfarfodydd a chyflwyniadau gan aelodau nad ydynt ar y panel[11]

**Trosolwg o Gyfarfod y Panel**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod 1** | Cyfarfod cyflwyniadol |
| **Cyfarfod 2** | Mapio Arferion Effeithiol ar gyfer dulliau ysgol gyfan, cynhwysfawr a chynhwysol o ymdrin ag addysg rhyw a pherthnasoedd (2): arbenigedd a phrofiad aelodau'r panel |
| **Cyfarfod 3** | Mapio Arferion Effeithiol ar gyfer dulliau ysgol gyfan, cynhwysfawr a chynhwysol o ymdrin ag addysg rhyw a pherthnasoedd (2): arbenigedd a phrofiad rheng flaen gan athrawon a myfyrwyr. |
| **Cyfarfod 4** | Ymchwilio i Ddulliau Creadigol a Thrawsgwricwlaidd ar gyfer Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd cyfannol a chynhwysol |
| **Cyfarfod 5** | Adroddiad Terfynol ac Argymhellion |

**Cyflwyniadau Allanol i'r Panel**

Matthew Abraham – Ymchwilydd Doethurol, Prifysgol Caerdydd.

Jên Angharad - POSSIB: Lleisiau Mewn Celf.

Siriol Burford (yn siarad ar ran) Ysgol Gyfun Aberpennar.

Richard Byng - Dirprwy Bennaeth, Ysgol Hendre Felin, Ysgol Arloesi

Yr Athro Kate Fisher - Prifysgol Caerwysg.

Yr Athro Gabrielle Ivinson – Prifysgol Fetropolitan Manceinion.

Professor Rebecca Langlands – Prifysgol Caerwysg

Catrin Pallot - Dirprwy Bennaeth Cynorthwyol, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Marc Lewis (Athro Drama ac Arweinydd Cydraddoldebau) a myfyrwyr, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ysgol Arloesi.

Dr. Ester McGeeney - Ymchwilydd ac ymarferydd iechyd rhywiol.

[11] Ar gyfer yr agendâu llawn a theitlau'r cyflwyniadau, gweler Renold a McGeeney (2017).

# Atodiad 4: Rhestr termau cysyniadau allweddol – diffiniadau gweithredol a ddefnyddir gan y panel

## Rhywioldeb

Defnyddir diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o rywioldeb yn yr adroddiad hwn. Diffiniad gweithredol Sefydliad Iechyd y Byd o rywioldeb yw:

... mae un o'r agweddau canolog ar fod yn ddynol drwy gydol bywyd yn cynnwys rhyw, hunaniaethau a rolau rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, erotigiaeth, pleser, cyfathrach ac atgynhyrchu. Caiff rhywioldeb ei brofi a'i fynegi mewn meddyliau, ffantasïau, dymuniadau, credoau, agweddau, gwerthoedd, ymddygiadau, arferion, rolau a pherthnasoedd. Er y gall rhywioldeb gynnwys pob un o'r dimensiynau hyn, ni chaiff pob un ohonynt ei brofi na'i fynegi pob tro. Mae rhyngweithiad ffactorau biolegol, seicolegol, cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, diwylliannol, cyfreithiol, hanesyddol, crefyddol ac ysbrydol yn dylanwadu ar rywioldeb. (SEFYDLIAD IECHYD Y BYD 2006, 2010).

I weld diffiniadau pellach gan Sefydliad Iechyd y Byd o iechyd rhywiol a hawliau rhywiol, ewch i http://www.who.int/reproductivehealth/topics/sexual_health/sh_definitions/en/[12]

## Perthynas

**Diffiniad gweithredol o berthynas a ddatblygwyd gan y panel**

Mae'r byd yn cynnwys pob math o berthnasoedd sy'n newid dros amser. Er enghraifft, gall fod yn blatonig, rhamantaidd, rhywiol neu'n berthynas nad yw'n rhywiol.

Diffinnir pwy ydym i raddau helaeth gan ein perthnasoedd ag eraill a'r byd o'n cwmpas. Gellir eu ffurfio gyda phobl a rhyngddynt, gyda chymunedau, duwiau, llefydd a natur (e.e. gofalu am anifeiliaid anwes neu'r amgylchedd). Mae pob un ohonom yn rhyng-gysylltiedig ac wedi ein ffurfio gan ein gilydd mewn un ffordd neu'r llall.

Caiff perthnasoedd rhyngbersonol, hynny yw perthnasoedd rhwng pobl, eu ffurfio yng nghyd-destun dylanwadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol a dylanwadau eraill (e.e. ecolegol, hanesyddol). Gallant gynnwys dau neu fwy o bobl, ac amrywio o ran hyd a dwysedd, o'r rhai byr iawn i ymrwymiadau gydol oes. Gall perthnasoedd rhyngbersonol gynnwys amrywiaeth o gysylltiadau cydsyniol ac anghydsyniol a chysylltiadau rhwng, er enghraifft, dieithriaid, cyfoedion, ffrindiau, teuluoedd/cysylltiadau perthnasau, partneriaethau, partneriaethau sifil a phriodas. Gall perthnasoedd gynnwys pob math o deimladau (e.e. hoffter, atyniad,

[12] http://www.who.int/reproductivehealth/topics/sexual_health/sh_definitions/en/

agosatrwydd, gofal, ofn, cariad, dyletswydd, grym, diffyg grym, parch, ymddiriedaeth).

Caiff perthnasoedd eu ffurfio a'u profi mewn mannau a lleoedd amrywiol (e.e. o'r iard chwarae a llefydd addoli, i ysgolion a'r cyfryngau cymdeithasol) sy'n croesi unrhyw raniad ar-lein/all-lein wrth i berthnasoedd wedi'u rhwydweithio a'u galluogi'n ddigidol gynyddu. Yn aml, caiff perthnasoedd eu rheoleiddio gan y gyfraith, arferion, defodau a chydgytundeb, ac maent yn gweithredu yng nghyd-destun cysylltiadau grym sy'n newid, sy'n anghyson, yn anghyfartal neu'n ddifrïol.

**Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd**

**Diffiniad gweithredol o Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd**

Nod Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n gynhwysol, yn gyfannol, ac yn seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau yw galluogi a grymuso plant a phobl ifanc yn raddol i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd moesegol sydd eu hangen arnynt i archwilio a deall sut mae rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd wedi llywio ac yn parhau i lywio bywydau pobl ledled y byd.

Caiff ei arwain gan anghenion a phrofiadau, a'i nod yw galluogi POB plentyn a pherson ifanc i weld ei hun ac eraill yn yr hyn y mae'n ei ddysgu ac annog plant a phobl ifanc i uniaethu a lleisio barn ar yr anghydraddoldebau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u llesiant eu hunain ac eraill.

Bydd yn ataliol ac yn amddiffynnol, a'i nod fydd cefnogi hawliau plant a phobl ifanc i fwynhau bywydau rhywiol a pherthnasoedd teg, boddhaus, diogel ac iach drwy gydol eu hoes, yn cynnwys y gallu i gydnabod a deall gwahaniaethu, perthnasoedd difrïol, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol, a gwybod sut a ble i geisio cymorth a chyngor (e.e. ar faterion iechyd rhywiol, lesbiaid, hoyw, ddeurywiol, trawsryweddol a ‘queer’ ac addysg ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.)

**Rhyw**

Defnyddir 'rhyw' yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at y prosesau a'r nodweddion biolegol a ddefnyddir gan gymdeithasau i bennu categorïau rhyw (e.e. gwrywaidd, benywaidd, rhyngrywiol). Mae'r nodweddion biolegol hyn yn cynnwys cromosomau, hormonau ac anatomi corfforol rhywiol ac atgynhyrchiol mewnol ac allanol.

**Rhywedd**

Defnyddir 'rhywedd' yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at y ffordd y caiff cyrff yn ôl eu rhyw eu *byw* (e.e. fel hunaniaeth, fel mynegiant, drwy ryngweithio cymdeithasol), eu *cynrychioli* (e.e. mewn iaith, yn y cyfryngau, diwylliant poblogaidd) a'u *rheoleiddio* (e.e. gan normau diwylliannol-gymdeithasol, megis stereoteipiau 'gwrywdod' a 'benyweidd-dra', ac yn y gyfraith). Er y gall y cysyniad o rywedd gynnwys ffyrdd gwahanol y mae cymdeithasau yn neilltuo cromosomau neu rannau o'r corff i

gategorïau rhyw, nid yw'n gyfystyr â rhyw, ac nid yw'n cyfeirio at hunaniaeth o ran rhywedd na mynegiant rhywedd yn unig. Mae'n gysyniad sy'n golygu y gellir dadansoddi rhywedd fel egwyddor drefniadol cymdeithas (e.e. sut y caiff ffurfiau rhywedd eu ffurfio gan ffactorau economaidd, amgylcheddol, gwleidyddol, diwylliannol, cyfreithiol, hanesyddol, crefyddol ac ysbrydol). Fel cysyniad, mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i ymchwilio i'r ffordd y mae cymdeithasau gwahanol yn mynd i'r afael â chroestoriad prosesau biolegol, diwylliannol-gymdeithasol a seicolegol.

### Diffiniad dros dro o Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb a ddatblygwyd gan y panel

#### Hunaniaeth o ran Rhywedd

Defnyddir 'hunaniaeth o ran rhywedd' drwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at ymdeimlad mewnol person ohono ef ei hun. Nid yw hunaniaeth o ran rhywedd o reidrwydd yn ymwneud â'r rhyw a neilltuir i rywun adeg ei eni. Mae teimladau am hunaniaeth o ran rhywedd yn dechrau yn gynnar, pan fydd rhywun tua 2-3 oed.

#### Mynegiant rhywedd

Defnyddir 'Mynegiant rhywedd' yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at yr arwyddion allanol a ddefnyddir gan bobl i gyfleu eu hunaniaeth o ran rhywedd (h.y. ymdeimlad mewnol ohonoch eich hun). Gall hyn gynnwys, er enghraifft, rhagenwau a ffefrir, dewis o ran enw, math o wisg ac ymddangosiad, ystumiau ac ymddygiad.

#### Trawsryweddol

Defnyddir trawsryweddol yn yr adroddiad hwn fel term ambarél i gyfeirio at bobl sy'n uniaethu'n wahanol â'r rhyw neu'r rhywedd a neilltuwyd iddynt adeg eu geni. Gall trawsryweddol gynnwys sbectrwm eang o hunaniaethau o ran rhywedd a mynegiannau rhywedd. Nid yw pawb sy'n cwestiynu neu nad ydynt yn uniaethu â'r rhyw neu'r rhywedd a neilltuwyd iddynt adeg eu geni yn diffinio eu hunain fel rhywun trawsryweddol (e.e. nad ydynt yn ddeuaidd, 'rhywedd-cwiar', rhywedd hylifol).

#### Queer

Mae'r term 'queer' yn cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn fel term ambarél i gyfeirio at rywedd nad yw'n cydymffurfio a hunaniaethau rhywiol, mynegiadau a chyfeiriadau.

#### Cydraddoldeb Rhywiol a Thegwch Rhywiol

Defnyddir cydraddoldeb rhywiol yn yr adroddiad hwn i olygu bod pobl yn mwynhau'r un hawliau, adnoddau, cyfleoedd ac amddiffyniadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ni waeth pa grŵp rhyw a neilltuwyd iddynt adeg eu geni, na'u hunaniaeth o ran rhywedd na'u mynegiant rhywedd. Defnyddir tegwch rhwng y rhywiau yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at yr anghenion a'r buddiannau gwahanol sydd eu hangen

ar bobl er mwyn sicrhau a chyflawni cydraddoldeb rhywiol. Yn aml defnyddir cydraddoldeb rhywiol a thegwch rhwng y rhywiau yn gyfnewidiol, ond mae'r ddau yn cyfeirio at y strategaethau gwahanol, ond ategol sydd eu hangen, er enghraifft, i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd a thrais rhywiol a'u lleihau.

**Bwlio**

Defnyddir bwlio yn yr adroddiad hwn i olygu'r cam-drin rhyngbersonol o gysylltiadau grym cymdeithasol a diwylliannol a gyfeirir yn gyson tuag at bobl neu grwpiau o bobl wedi'u targedu dros amser. Gall fod yn gudd neu'n amlwg ac wedi'i fynegi mewn ffyrdd geiriol, corfforol, seicolegol, perthnasol neu dechnolegol (gweler hefyd Atodiad 6 yn Renold a McGeeney 2017).

**Trais ar sail rhywedd**

Defnyddir trais ar sail rhywedd i gyfeirio at:

*(a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â chyfeiriadedd o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol*

*(b) llurgunio organau rhywiol menywod*

*(c) gorfodi rhywun (boed hynny drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddull seicolegol arall) i ymrwymo i'r ddefod grefyddol neu sifil o briodas (boed yn gyfreithiol rwymol ai peidio).*

fel y'i diffinnir gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**Cam-drin Domestig**

Cam-drin domestig, neu drais domestig yw pan fo un person yn rheoli person arall o fewn perthynas bersonol neu berthynas deuluol agos. Gall hynny gynnwys cam-drin rhywiol, corfforol, ariannol, emosiynol neu seicolegol. Mae'r cam-drin yn gallu digwydd yn y cartref neu mewn man arall.

Patrwm ymddygiad ydyw fel arfer sy'n digwydd heb ystyried rhyw, rhywedd, oedran, cyfrifoldebau gyrfaol, dosbarth, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, statws mewnfudo, ethnigrwydd, daearyddiaeth na chrefydd. Fodd bynnag, mae rhywedd y dioddefwr a'r cyflawnwr yn dylanwadu ar ba mor ddifrifol yw'r niwed a achosir, a'r risg.

Mae cam-drin domestig yn gallu digwydd mewn sawl ffordd, er enghraifft:

- ymddygiad gorfodol a gormesol (patrwm o reoli, ynysu, bychanu, dychryn a bygwth)
- cam-drin emosiynol / seicolegol
- cam-drin corfforol
- cam-drin rhywiol
- cam-drin ariannol
- aflonyddu a stelcio

Dyma ddiffiniad Llywodraeth y DU o drais a cham-drin domestig:

Unrhyw achos neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad gorfodol, gormesol a bygythiol, trais neu gam-drin rhwng y rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu'n bartneriaid personol neu'n deulu ni waeth beth yw eu rhywedd na'u rhywioldeb [13]

**Trais yn erbyn Menywod**

Cyfeirir ato hefyd fel trais yn erbyn merched a menywod. Mae trais yn erbyn menywod yn mynd yn erbyn hawliau dynol ac yn achos a'n ganlyniad i wahaniaeth rhywedd ac anghydraddoldebau eraill rhwng menywod a dynion. Mae hefyd yn cyd-fynd â phatrymau ehangach o ryw ac anghydraddoldebau eraill sy'n rhannu yn ddau grŵp, gan gynnwys ethnigrwydd, dosbarth, hunaniaeth o ran rhywedd, oedran, gallu, rhywedd, crefydd a chred. Mae'n digwydd i fenywod oherwydd eu bod yn fenywod ac mae pob math o drais yn effeithio'n amlach arnyn nhw[14].

Mae'n cynnwys pob math o drais ar sail rhywedd sy'n arwain at, neu sy'n fwy tebygol o arwain at niwed corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd, neu'n achosi i fenywod ddioddef mewn sawl ffordd, gan gynnwys bygythiadau o drais o'r fath, amddifadu'n orfodol neu'n ormesol o ryddid, boed hynny yn gyhoeddus neu'n breifat. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft:

(a) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd o fewn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin rhywiol o ferched ifanc yn y cartref, trais sy'n ymwneud â gwaddol, trais mewn priodas, anffurfio organau cenhedlu benywod ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidio menywod, trais rhwng pobl nad ydynt yn briod a thrais sy'n ymwneud â chamfanteisio;

(b) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y gymuned gyffredinol, gan gynnwys treisio, cam-drin rhywiol, aflonyddwch rhywiol a bygythiadau yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgol a thu hwnt, masnachu menywod a phuteindra dan orfod;

(c) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a gyflawnir neu a ganiateir gan y Wladwriaeth[15].

[13] https://www.gov.uk/government/news/new-definition-of-domestic-violence.
[14] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-cy.pdf
[15] http://www.un.org/documents/ga/res/48/a48r104.htm

**Trais rhywiol**

Defnyddir trais rhywiol yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at 'gam-fanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rywiol' fel y'u diffinnir gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Ar gyfer diffiniadau penodol ychwanegol ar gam-drin, anffurfio organau cenhedlu benywod, aflonyddu, a cham-drin domestig, gweler Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016 – 2021

## Atodiad 5: Egwyddorion craidd ar gyfer cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd byw




**MAE ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD SY'N SEILIEDIG AR HAWLIAU A THEGWCH RHWNG Y RHYWIAU...**
**…yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc i gael Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n berthnasol, yn gyfannol, yn gynhwysol ac sy'n grymuso, sy'n seiliedig ar degwch rhwng y rhywiau, cyfiawnder cymdeithasol, diogelwch a llesiant ac sy'n hyrwyddo'r rhain**

Mae hawliau o ran rhywioldeb a pherthnasoedd yn gyfres esblygol o hawliau dynol sy'n gysylltiedig â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau ac sy'n cyfrannu at ryddid, tegwch, cydraddoldeb, urddas, llesiant a diogelwch pawb. Mae ymchwil ryngwladol yn nodi mai'r rhaglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mwyaf effeithiol yw'r rhai sydd â dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau. Mae gosod Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn gadarn o fewn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), y Ddyletswydd Cydraddoldeb (2010), Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015)

a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), yn cefnogi hawl pob plentyn a pherson ifanc i fwynhau addysg rhywioldeb a pherthnasoedd cyfannol sydd wedi ei hymgorffori yng nghyd-destun tegwch rhwng y rhywiau, cyfiawnder cymdeithasol, diogelwch a llesiant.

Bydd cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau yn creu amgylcheddau dysgu sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymchwilio i effaith cysylltiadau grym anghyson mewn cymdeithas, ac yn benodol sut mae hyrwyddo tegwch rhwng y rhywiau a chydraddoldeb rhywiol yn cyfrannu at wireddu hawliau rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd a rhyddid rhag trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Bydd yn galluogi plant a phobl ifanc i ddeall effaith normau rhywedd a rhywiol arnynt hwy eu hunain, ar eraill ac ar gymdeithas, a'r rôl y mae normau rhywedd a rhywiol yn ei chwarae mewn ymyleiddio cymdeithasol ac economaidd, a gwrthdaro rhyngbersonol, gorthrymder, gwahaniaethu, cam-drin a thrais.

Cwricwlwm sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch yw sail Addysg Rhyw a Pherthnasoedd greadigol a chwilfrydig, grymusol a thrawsnewidiol, yn seiliedig ar brofiadau ac wedi ei chyd-gynhyrchu, yn gyfannol, cynhwysol, amddiffynnol ac ataliol.

- **Yn gynhwysol**

**MAE ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD GYNHWYSOL …**
**… yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaeth mewn perthynas â meysydd rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd**

**Mae cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysol yn hollbwysig mewn tirwedd sy'n newid yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn wleidyddol ac yn ddigidol lle mae hunaniaethau, diwylliannau a chyfreithiau rhywedd, rhywiol a pherthnasoedd yn ehangu ac yn lleihau mewn ffyrdd gymhleth ledled y byd. Mae cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd cynhwysol nid yn unig yn cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth ar draws meysydd rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd, ond yn gwerthfawrogi'r gwahaniaethau hyn fel ffynhonnell cryfder ac mae'n sylfaenol i gymdeithasau cydlynus, teg a chyfiawn. Gall Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysol fynd i'r afael â'r ffordd y bydd cysylltiadau grym anghyfartal yn datblygu pan fydd marcwyr eraill gwahaniaethau cymdeithasol, diwylliannol, daearyddol, ymgorfforedig a gwybyddol (e.e. oedran, anabledd, gallu, ethnigrwydd, dosbarth, crefydd, ffydd, sefydliad, ardal ac ati) yn rhyngweithio mewn ffyrdd sy'n grymuso unigolion, grwpiau a chymunedau neu mewn ffyrdd nad ydynt yn eu grymuso.**

- **Yn gyfannol**

**MAE ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD GYFANNOL ...**
**…yn archwilio'r ffyrdd cydgysylltiedig y mae rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd yn llywio bywydau pobl ledled y byd**

Mae cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd cyfannol yn cynnig cwricwlwm rhyngddisgyblaethol ar gyfer dysgu a phrofiad. Gan symud i ffwrdd oddi wrth raglenni cwricwlwm ar wahân neu unigol (e.e. gwersi ar 'bornograffi', 'cydsyniad', 'hunaniaeth o ran rhywedd', nodweddir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gyfannol gan ei gallu i integreiddio'r materion hyn gan gyfeirio at sut maent yn cysylltu â'i gilydd (e.e. y meysydd biolegol, diwylliannol, economaidd, hanesyddol, gwleidyddol, seicolegol, cymdeithasol a digidol). Gall Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gyfannol a rhyngddisgyblaethol alluogi plant a phobl ifanc i ymchwilio i'r ffyrdd deinamig a chydgysylltiedig y caiff rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd eu ffurfio ar draws chwe maes craidd dysgu a phrofiad, gan gynnwys y celfyddydau creadigol a mynegiant; iechyd a lles; dyniaethau; iaith, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; gwyddoniaeth a thechnoleg.

- **Yn seiliedig ar brofiadau ac wedi'i chydgynhyrchu**

**CAIFF ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD YN SEILIEDIG AR BROFIADAU AC WEDI'I CHYD-GYNHYRCHU**
**...ei ddatblygu gyda phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau cwricwlwm perthnasol ac ymatebol sy'n gwella llais a chyfrwng disgyblion.**

Anaml y caiff disgwyliadau o gwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n briodol o ran oedran eu seilio ar ddysgu a phrofiad plant a phobl ifanc *eu hunain* o faterion rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd, ac yn aml maent yn methu â mynd i'r afael a'r dysgu a'r profiad hwnnw (neu'n ei dawelu). Mae cwricwlwm sy'n seiliedig ar brofiadau ac sy'n  ddatblygiadol briodol yn un sydd wedi ei arwain gan anghenion, ac sy'n cydnabod ac yn ymateb i gyfryngaeth, gwybodaeth a phrofiad y plant a'r bobl ifanc eu hunain (Erthygl 13 CCUHP, ENOC 2017). Gall cyd-gynhyrchu'r cwricwlwm gyda phlant a phobl ifanc sicrhau cwricwlwm *byw* perthnasol gan ei fod yn cysylltu'n uniongyrchol â'r hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei brofi o'u hamgylch. Gan ddefnyddio ystod o fathau beirniadol a chreadigol o addysgeg, ni fydd yn tybio, ond yn cydweddu â galluoedd *esblygol* plant a phobl ifanc, gan alluogi POB plentyn a pherson ifanc i weld eu hunain a'i gilydd (e.e. materion yn ymwneud â chyfoedion, teulu, cymuned, y byd) yn yr hyn a ddysgant. Mae gweithio mewn ffordd gydgynhyrchiol hefyd yn cynnig cyfleoedd a mannau i blant a phobl ifanc "fel y gallant ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ynghylch y cwricwlwm, addysg ac asesu" (Dyfodol Llwyddiannus t.23).

- **Yn greadigol a chwilfrydig**

**MAE ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD GREADIGOL A CHWILFRYDIG ...**
**… yn cefnogi cwricwlwm llawn cwestiynau ac yn defnyddio addysgeg greadigol er mwyn hwyluso amgylchedd dysgu moesegol, diogel ac agentig.**

Mae arfer gorau ac addawol mewn addysg rhywioldeb a pherthnasoedd wedi dogfennu buddiannau defnyddio addysgeg greadigol er mwyn datblygu amgylcheddau diddorol a diogel. Mae gan addysgeg greadigol, sy'n aml yn defnyddio'r celfyddydau mynegiannol (e.e. drama, celfyddyd weledol, barddoniaeth) y potensial i hwyluso mannau rhyngweithiol, cyfryngol a moesegol i deimlo, meddwl, cwestiynu, ymgorffori a rhannu materion personol sydd yn aml yn sensitif neu'n anodd, heb i blant a phobl ifanc ddatgelu gormod amdanynt hwy eu hunain.

Cyflawnir hyn yn aml drwy integreiddio'r dull mynegi (e.e. collage gweledol) gyda thechnegau ymbellhau, a defnyddio addysgeg feirniadol sy'n gwahodd plant a phobl ifanc i greu senarios sy'n cysylltu â'r personol ond sydd hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer meddwl ar y cyd, deall, trafod a gweithredu dros newid (CCUHP, Erthygl 13).

- **Yn rymusol a thrawsnewidiol**

**MAE ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD GRYMUSOL A THRAWSNEWIDIOL ...**

**...yn creu cwricwlwm cadarnhaol a thrawsnewidiol sy'n gwahodd plant a phobl ifanc i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ar gyfer tegwch a llesiant rhwng y rhywiau, rhywiol ac o ran perthnasoedd**

Yn rhy aml, mae plant a phobl ifanc yn dysgu am rywioldeb a pherthnasoedd drwy sgriptiau o risg, cywilydd a bai sy'n canolbwyntio ar rywedd, hil, heterorywaeth, dosbarth a gallu. Mae cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd cadarnhaol a grymusol yn hanfodol ar gyfer profiad dysgu ystyrlon, rhyngweithiol ac ymgysylltiol. Yn y bôn, nid yw'n feirniadol, nid yw'n stigmateiddio ac nid yw'n gwahaniaethu. Mae'n annog prosesau gweithredol a chytûn o wneud penderfyniadau ac o ddeall drwy ymchwiliad beirniadol i faterion hanesyddol neu gyfoes a phroblemau o ran pryd, ble, sut a pham y mae pethau'n digwydd a'u siawns o newid. Gall dull trawsnewidiol at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd helpu plant a phobl ifanc i herio effaith agweddau a disgwyliadau cymdeithasol negyddol mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd a gwahodd plant a phobl ifanc i uniaethu, meithrin cydberthnasau ag eraill a gweithredu ar yr anghydraddoldebau yn eu bywydau a'u llesiant nhw ac eraill.

- **Yn amddiffynnol ac yn ataliol**

**MAE ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD AMDDIFFYNNOL AC ATALIOL**
**...yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu: llythrennedd cymdeithasol, emosiynol a chorfforol; gwydnwch er mwyn ymdopi â newid, gwrthdaro a phwysau; y wybodaeth i gydnabod perthnasoedd difrïol; a'r hyder i geisio cymorth**

Caiff Addysg Rhyw a Pherthnasoedd amddiffynnol ac ataliol ei lywio gan nifer o'r erthyglau amddiffynnol sydd wedi'u cynnwys yn y CCUHP. Mae Erthyglau 19, 32, 35 a 37 yn nodi y dylai llywodraethau amddiffyn plant dan 18 oed rhag pob math o drais, anaf neu gamdriniaeth gorfforol neu feddyliol, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, camarfer neu gamfanteisio, a chamdriniaeth rywiol. Mae Erthygl 2 yn cwmpasu rhyddid rhag gwahaniaethu (e.e. rhagfarn ar sail rhyw, hiliaeth, sectyddiaeth, homoffobia, trawsffobia, gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl neu ragfarn ar sail gallu); mae erthygl 8, yr hawl i hunaniaeth (yn cynnwys hunaniaeth o ran rhywedd a rhyw) ac erthygl 24 a 31 yn nodi hawliau plant i iechyd, llesiant a chwarae. Gan integreiddio'r erthyglau hyn i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015), Deddf Cydraddoldeb (2010) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), bydd cwricwlwm Addysg Rhyw a

Pherthnasoedd amddiffynnol ac ataliol yn galluogi plant a phobl ifanc i feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i adnabod gwahaniaethu, perthnasoedd difrïol a thrais.

Bydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ataliol ac amddiffynnol hefyd yn osgoi canolbwyntio ar strategaethau sy'n lleihau risg bersonol yn unig. Yn hytrach, bydd yn mynd i'r afael â risg bersonol o fewn y cyfyngiadau systemig (e.e. normau cymdeithasol a chydberthnasau pŵer anghyfartal) sy'n rhoi cyd-destunau cydnaws ar gyfer y mathau o wahaniaethu, gormes, trais a chamdriniaeth a amlinellir uchod. Caiff ei ymgorffori mewn dull gweithredu ysgol gyfan, gan ddefnyddio addysgeg ryngweithiol sydd â'r nod o greu amgylcheddau dysgu cydweithredol trawsnewidiol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Bydd yr amgylcheddau hyn yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin y llythrennedd cymdeithasol, emosiynol a chorfforol[16] a'r gwydnwch i ddeall a rheoli newid, gwrthdaro, a phwysau o bob math (e.e. mewn perthynas â'u hunaniaeth, eu corff, mewn perthnasoedd, mewn teuluoedd ac mewn cymdeithas). Byddant hefyd yn helpu i ddatblygu hyder plant a phobl ifanc i leisio eu barn ac i wybod ble a sut i geisio cyngor, cymorth ac amddiffyniad mewn perthynas â gwahaniaethu, cam-drin a thrais.

Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd amddiffynnol ac ataliol yn gwricwlwm moesegol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o barch at eraill, gofal o'u hunain ac eraill, fel unigolion a dinasyddion Cymru a'r byd sy'n gyfrifol ac yn wybodus yn foesegol.

[16] Byddai llythrennedd corfforol yng nghyd-destun Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth gyfunol, sgiliau cyfathrebu a llesiant mewn perthynas â phynciau sy'n ymwneud ag Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (e.e. cydsyniad cadarnhaol).

# Atodiad 6: Meysydd thematig ar gyfer cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd byw

## Dechrau proses

Rhagwelir y bydd yr egwyddorion craidd a amlinellir uchod yn sail i'r llwybrau dilyniant yn y gwaith o ddylunio nodau ac amcanion dysgu clir sy'n briodol yn ddatblygiadol yn y dyfodol. Disgwylir y bydd y broses hon yn cael ei chyflawni gan yr ysgolion arloesi a'r ysgolion clwstwr, gyda chymorth gan arbenigwyr perthnasol sydd ar gael, dros y pedair blynedd nesaf (2018-2022). Er bod creu cynnwys thematig manylach heb broses ymgynghori gadarn, yn enwedig gyda'r plant a phobl ifanc eu hunain, yn amhriodol a thu hwnt i allu'r panel[17] (gweler, er enghraifft, Johnson et al. 2016), gwnaeth y panel rywfaint o gynnydd o ran ystyried *meysydd thematig arweiniol.* Fodd bynnag, dim ond dechrau proses yw'r meysydd thematig hyn a dylid eu darllen yng nghyd-destun rhywbeth i ysgogi trafodaeth ymhlith yr ysgolion arloesi. Maent wedi cael eu drafftio yng nghyd-destun amrywiaeth o gwricwla, a'u harwain gan y cwricwla hynny, gan gynnwys:

### *Dull cyfannol at addysg rhyw a pherthnasoedd: integreiddio Fi a Ni mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd*

Er bod y meysydd thematig canlynol wedi gwahanu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ‘personol’ oddi wrth y meysydd gwybodaeth a phrofiad craidd eraill, fel y mae'r model yn dangos, maent, yn eu hanfod, yn gysylltiedig â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n croesi unrhyw raniadau syml rhwng yr hunan, eraill a'r byd. Mae Lamb a Randazzo (2016)[18] yn cyfeirio at hyn fel ymagwedd "fi a ni" at addysg rhyw a pherthnasoedd. Er enghraifft, gan integreiddio cysyniad "fi a ni", byddai addysgwyr yn hwyluso amgylcheddau a gweithgareddau dysgu addysg rhyw a pherthnasoedd a fyddai'n archwilio'r hunan mewn perthynas ag eraill ac yn gysylltiedig â nhw bob amser. Fel y dywed Lamb a Randazzo, y gobaith yw y bydd yr hyn a fyddai'n dda i'r unigolyn yn troi'n rhywbeth a fyddai'n dda i gymdeithas, i'r unigolyn arall ac i'r byd.

---

[17] gweler Adran 4 am yr arfer gorau mewn perthynas â chwricwlwm wedi'i gyd-gynhyrchu.

[18] Lamb, S. a Randazzo, R. (2016) *From I to We: Sex education as a form of civics education in a neoliberal context, Curriculum Inquiry* Cyf. 46 (ifirst)




**HAWLIAU, TEGWCH RHWNG Y RHYWIAU A PHŴER**

*Gallai'r meysydd craidd dangosol gynnwys dysgu a phrofiad myfyrwyr mewn perthynas â'r canlynol:*

- Sut mae normau cymdeithasol a diwylliannol yn ffurfio'r ffordd y mae pobl yn dysgu am eu rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau, ac yn eu mynegi
- Sut mae technolegau newydd, y cyfryngau a'r gyfraith yn ffurfio'r ffordd y mae pobl yn dysgu am eu rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau, ac yn eu mynegi
- Hawliau mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas ledled y byd.
- Tegwch mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas ledled y byd.
- gwahaniaethu, gormesu, cam-drin a thrais seiliedig ar ryw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas ledled y byd.

**HUNANIAETH, MYNEGIANT AC YMDDYGIAD**
*Gallai'r meysydd craidd dangosol gynnwys dysgu a phrofiad myfyrwyr mewn perthynas â'r canlynol:*

- Hanes ffurfio hunaniaethau, mynegiant ac ymddygiad mewn perthynas â rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas
- Natur amrywiol hunaniaethau, mynegiant ac ymddygiad mewn perthynas â rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas, ledled y byd a chydol oes.
- Cynrychioliadau o hunaniaethau, mynegiant ac ymddygiad mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas yn y celfyddydau, yn y cyfryngau ac mewn diwylliant.

**CYRFF**
*Gallai'r meysydd craidd dangosol gynnwys dysgu a phrofiad myfyrwyr mewn perthynas â'r canlynol:*

- Natur amrywiol cyrff rhywiol gydol oes a ledled y byd.
- Newidiadau'r corff, atgenhedlu dynol a chylchoedd bywyd.
- Byd cymdeithasol, diwylliannol a technolegol delwedd y corff, gwrthrychu'r corff ac addasu'r corff.

**CYDBERTHNASAU A THEIMLADAU**
*Gallai'r meysydd craidd dangosol gynnwys dysgu a phrofiad myfyrwyr mewn perthynas â'r canlynol:*

- Hanes cydberthnasau ledled y byd
- Natur amrywiol cydberthnasau ledled y byd a chydol oes.
- Byd biolegol, cymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol teimladau
- Cynrychioliadau o gydberthnasau a theimladau yn y celfyddydau, yn y cyfryngau ac mewn diwylliant.

**DIOGELWCH, GOFAL, CYMORTH A LLESIANT PERSONOL**
*Gallai'r meysydd craidd dangosol gynnwys dysgu a phrofiad myfyrwyr mewn perthynas â'r canlynol:*

- Sut mae gwerthoedd a chredoau personol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithio ar benderfyniadau, teimladau ac ymddygiad yr hunan ac eraill
- Sgiliau cyfathrebu: disgyrsiol, ymgorfforedig a digidol
- Ymreolaeth y corff, parch, preifatrwydd a chaniatâd
- Rheoli diogelwch, gwrthdaro, risg a phwysau o wahanol fathau ac ymddygiadau a chanlyniadau digroeso

- Natur ac effaith gymdeithasol, emosiynol, corfforol a chyfreithiol trais yn erbyn merched a menywod, cam-drin domestig a phob math o drais rhywiol a thrais seiliedig ar rywedd, gan gynnwys trais homoffobig, deuffobig a thrawsffobig.

- Ceisio cymorth a chyngor.

**CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A DINASYDDIAETH FOESEGOL**
*Gallai'r meysydd craidd dangosol gynnwys dysgu a phrofiad myfyrwyr mewn perthynas â'r canlynol:*

- Sut mae cyfreithiau a pholisïau'n cyfrannu at degwch a hawliau dynol mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas.
- Y cyfleoedd a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth arfer eu hawliau mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas ledled y byd.
- Sut mae pobl, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol, tegwch, cydraddoldeb a hawliau mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthynas.

# Atodiad 7: Parchu eraill ar gyfer perthnasoedd llawn parch – datganiad y panel ar fynd i'r afael â'r diwylliant bwlio mewn ysgolion

## Parchu eraill ar gyfer perthnasoedd llawn parch*:* Mynd i'r afael â diwylliant bwlio mewn ysgolion

*Cyflwynwyd y datganiad hwn gan y Cadeirydd i Lywodraeth Cymru yn dilyn cyfarfod panel 4 (gweler Atodiad 2).*

Mae dirfawr angen diwygio'r ffordd o ddeall beth yw bwlio a beth y gall ysgolion ei wneud yn ei gylch.

***Diffiniad gweithredol arfaethedig:***
Defnyddir bwlio i olygu'r cam-drin rhyngbersonol o gysylltiadau grym cymdeithasol a diwylliannol a gyfeirir yn gyson tuag at bobl neu grwpiau o bobl wedi'u targedu dros amser. Gall fod yn gudd neu'n amlwg ac wedi'i fynegi mewn ffyrdd geiriol, corfforol, seicolegol, perthnasol neu dechnolegol.

***Deall gwreiddiau gweithredoedd bwlio***
Caiff gweithredoedd bwlio unigol neu mewn grŵp eu mynegi o fewn cyd-destun anghydraddoldebau cymdeithasol a diwylliannol ehangach, a chânt eu cynnal gan yr anghydraddoldebau hynny. Yn gryno, mae gweithredoedd bwlio yn tueddu i atgynhyrchu'r anghydraddoldebau hyn.

Yn aml, mae gweithredoedd bwlio yn atgyfnerthu'r hyn sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol (e.e. beth y gall 'bachgen' ei wisgo neu ble y dylai plentyn fyw). Yn aml, caiff unigolion neu grwpiau o blant a phobl ifanc y canfyddir eu bod yn 'wahanol' i'r 'norm' eu targedu i'w bwlio.

***Beth all ysgolion ei wneud?***
Mae angen i ysgolion ddeall ymddygiadau bwlio fel micro-fynegiant o anghydraddoldebau cymdeithasol mynych ehangach. Dim ond wedyn y caiff ymyriadau eu targedu ar gyfer creu cyd-destunau cydnaws i fynd i'r afael ag achos a chanlyniad diwylliannau bwlio a sicrhau amgylchedd mwy diogel mewn ysgolion i bawb.

Er mwyn cyflawni newid cyfreithadwy a chynaliadwy, mae angen i ni newid y ffocws o'r bwlis a'r dioddefwyr unigol yn unig, a gweithio tuag ymyriadau sy'n mynd i'r afael â diwylliannau bwlio yng nghyd-destun hawliau, cydraddoldebau a chyfiawnder cymdeithasol (e.e. sut y gallwn helpu myfyrwyr a phob aelod o staff i ddeall achos pŵer a chydraddoldeb mewn ysgolion a'r byd ehangach; beth y gallwn ei wneud i nodi a newid yr amodau a'r cyd-destunau rydym yn galluogi diwylliannau bwlio i ffynnu ynddynt)

***Beth yw arfer gorau?***
Bydd arfer gorau yn annog polisïau ac arferion ysgolion i weithio gyda phlant, rhieni a'r gymuned ehangach er mwyn datblygu ymyriadau cadarnhaol sy'n:

- Annog ymwybyddiaeth o hawliau plant i fod yn ddiogel ac yn rhydd o wahaniaethu a niwed
- Dathlu (nid goddef) gwahaniaeth ac amrywiaeth, a deall y cysylltiadau rhwng gweithredoedd a diwylliannau bwlio sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig
- Rhoi gwaith gwrth-fwlio yng nghyd-destun ehangach dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ar gyfer perthnasoedd iach, llawn parch ac atal trais.
- Mesur y cynnydd mewn perthynas â gweithgareddau rhagweithiol a chadarnhaol[19] sy'n hyrwyddo gwahaniaeth, amrywiaeth, hawliau a chyfiawnder cymdeithasol yn ehangach, fel rhan o gynllun cydraddoldebau ysgol gyfan.
- Cefnogi a dathlu prosiectau ymchwil ymgyrchoedd gweithredu ysgol gyfan a arweinir gan fyfyrwyr i werthuso cynnydd (DS. mae perchenogaeth gan fyfyrwyr yn hanfodol ar gyfer ymyriadau llwyddiannus, ac mae'n eu galluogi i godi meysydd newid sy'n bwysig iddyn nhw

Er mwyn cyflawni'r uchod, mae angen i **hyfforddiant a gweithdai** ar gyfer staff ysgolion ganolbwyntio ar;

**- deall** achosion a chanlyniadau diwylliannau bwlio: hynny yw, sut y caiff gweithredoedd bwlio unigol neu mewn grŵp eu mynegi o fewn cyd-destun anghydraddoldebau cymdeithasol a diwylliannol ehangach, a'u cynnal gan yr anghydraddoldebau hynny.
- sut y gallant **gyd-gynhyrchu gweithgareddau sy'n mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau** â phlant drwy ddull gweithredu ysgol gyfan sy'n seiliedig ar hawliau fel rhan o'u cynllun cydraddoldebau.

*Yr Athro Emma Renold, mis Gorffennaf 2017*

*D.S. Gall y panel, drwy'r cadeirydd, ddarparu cyfeiriadau a wnaed er mwyn cefnogi'r dull gweithredu uchod yn ddiweddarach os oes angen.*

[19] Mae'n hanfodol cael dull cadarnhaol o fynd i'r afael â diwylliannau bwlio wrth gefnogi ysgolion sy'n ofni'r stigma sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth o'r materion hyn. Os caiff gweithredoedd a diwylliannau bwlio eu deall fel arwyddion a symptomau byw mewn cymdeithas, ac ymladd â'r cydberthnasau anghyfartal ac anghyson a geir mewn cymdeithas, gallai hyn leddfu'r stigma i ysgolion sy'n mynd i'r afael yn rhagweithiol â gweithredoedd a diwylliannau bwlio.